

# Storïau tywydd

1 Os yw'r grŵp yn newydd i'r thema darogan a rhagfynegi, ac os oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, efallai yr hoffech chi ddechrau'r wers trwy chwarae'r ffilm **Rhagfynegi ffilm chwalu ffeithiau**

2 Rhannwch y grŵp yn grwpiau o dri. Dywedwch wrth bob grŵp eu bod yn mynd i edrych ar sut mae rhagolygon y tywydd yn cael eu hadrodd mewn gwahanol fannau, gan feddwl sut y gellir dweud y stori'n wahanol o amrywiaeth o ffynonellau. Gallwch ddangos enghreifftiau o ragolygon tywydd ar-lein y Swyddfa Dywydd, papurau newydd tabloid, gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol, CBBC Newsround, teledu rhanbarthol a theledu cenedlaethol rydych chi'n dod o hyd iddyn nhw ar-lein i roi ysbrydoliaeth iddynt. Efallai yr hoffech chi ddyrannu'r sianeli hyn i grwpiau penodol neu ofyn i rywun o bob grŵp ddewis un trwy 'dip lwcus'

3 Anogwch bawb i ymgyfarwyddo ag enghreifftiau o'r cyfryngau a roddwyd iddynt er mwyn deall y naws a'r iaith a ddefnyddir. Os oes gan y grŵp fynediad i gyfrifiaduron neu lechi a'r rhyngrwyd, gofynnwch i'r grwpiau archwilio'r wefan ar gyfer eu sianel gyfryngau ddewisol. Os nad oes, gallwch argraffu a pharatoi erthyglau enghreifftiol cyn y wers

20 munud

Gwaith grwp

Rhagfynegi ffilm chwalu ffeithiau

**4** Unwaith y bydd pob grŵp wedi edrych ar eu rhagolygon tywydd, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grwpiau:

- Pa eiriau ac iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r tywydd?
- A yw'r adroddiad tywydd hwn wedi'i orliwio? A yw'r wybodaeth yn cael ei gorliwio?
- Beth mae'r pennawd yn ei ddweud?
- Pa fath o ddarluniau llun neu graffeg a ddefnyddir? Ydyn nhw'n newid y ffordd y gellir dehongli'r rhagolwg?

**5** Rhowch 5-10 munud i'r grŵp ysgrifennu eu hatebion. Yna dewiswch un neu ddau o gwestiynau o'r rhestr a gofynnwch i bob grŵp rannu eu hateb. Pwysleisiwch y gall y tywydd gael ei adrodd yn wahanol iawn mewn gwahanol gyfryngau

**6** Gofynnwch i bawb fyfyrio ar yr hyn y byddan nhw'n ei gymryd i ffwrdd a sut y byddan nhw'n ystyried newyddion maen nhw'n eu gweld, eu clywed a'u darllen yn y dyfodol. Crynhowch drwy nodi ei bod hi'n bwysig dibynnu ar ffynonellau dibynadwy, yn enwedig wrth baratoi pobl orau ar gyfer y tywydd disgwyliedig. Er y gallwn ymddiried mewn pobl sy'n rhannu straeon â ni, mae angen i ni ddarganfod ffynhonnell yr wybodaeth i nodi beth y gallwn ymddiried ynddo





© Hawlfraint y Goron 2022, Y Swyddfa Dywydd